

Teitl yr Adroddiad: (angen cyd-fynd â'r agenda)	Diweddariad 6 Mis Gwaith Iechyd y Cyhoedd (gan gynnwys Dangosyddion Ymyrraeth wedi'i Thargedu)		Rhif yr Eitem ar yr Agenda:		
Cyfarfod:	Y Pwyllgor Ansawdd	Cyhoeddus	X	Dyddiad y Cyfarfod:	28 Gorffennaf 2026
		Preifat			
Teitl y Prif Swyddog Gweithredol:	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd				
Teitl Awdur(on) yr Adroddiad:	Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd				
Crynodeb Ffocws yr Adroddiad – Fframwaith AAA: Mae'r fframwaith AAA yn adlewyrchu sefyllfa gyffredinol y mater sy'n cael ei adrodd. Dewiswch un categori yn unig a llenwch y blwch perthnasol gyda chrynodeb byr. Mae canllaw defnyddiol i'w gael yma: Canllaw A Driphlyg y GIG					
RHYBUDD (ALERT) (Yn tynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder sylweddol, megis diffyg cydymffurfio, risgiau brys, neu faterion pwysig sydd angen gweithredu arnynt ar unwaith neu y mae'n rhaid i'r Bwrdd/Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt ar unwaith).					
CYNGOR (ADVICE) (Unrhyw feysydd monitro parhaus lle mae diweddariad wedi'i ddarparu i is-bwyllgor/Grŵp AC unrhyw ddatblygiadau newydd y bydd angen eu cyfleu neu eu cynnwys yn y ddarpariaeth weithredol)					
SICRHAU (ASSURE) (yn manylu ar feysydd lle bydd y Bwrdd/Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth o reolaeth effeithiol, perfformiad o ansawdd uchel, neu welliannau)					
Mae'r papur hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad a chyflawniad ymyriadau iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan dynnu sylw at berfformiad nodedig diweddar, a chamau a gymerwyd yn ddiweddar. Mae ein rhaglen iechyd y cyhoedd wedi'i gosod yng nghyd-destun cynllun iechyd y cyhoedd hirdymor y Bwrdd Iechyd, a'i flaenoriaethau ar gyfer 2024-2028 sef imiwneiddio, rhoi'r gorau i smygu a phwysau iach.					

Ymateb y Bwrdd/Pwyllgor yn Ofynnol (dewiswch un yn unig) I gadarnhau'r camau y gofynnir i'r Aelodau eu cymryd o ystyried y Fframwaith AAA					
Sicrwydd	X	Cymeradwyo		Gwybodaeth/Nodi	
Argymhellion Dylai argymhellion fod yn glir, yn ymarferol, ac wedi'u halinio â chrynodeb yr AAA uchod. Gofynnir i'r Pwyllgor Ansawdd: Nodi cyd-destun cynllun iechyd y cyhoedd hirdymor Caerdydd a'r Fro, a'r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd a'r Fro Nodi perfformiad a chyflwyniad rhaglenni iechyd y cyhoedd yn ein hardal ar hyn o bryd Nodi mai dyma'r cyntaf o'r diweddariadau chwe misol rheolaidd ar ein rhaglenni iechyd y cyhoedd.					
Llwybr Llywodraethu (rhestrwch bob Pwyllgor/Grŵp arall y mae'r adroddiad hwn wedi bod iddo)					
Ble mae wedi bod:	Ddim yn berthnasol				
Pan aeth:					

Pa benderfyniad a wnaed:

Y prif adroddiad

Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

Cefndir

Datblygwyd a chyhoeddwyd [cynllun iechyd y cyhoedd hirdymor BIP Caerdydd a'r Fro](#) yn 2024. Mae hyn yn rhoi crynodeb o ddemograffeg y boblogaeth ac anghenion iechyd poblogaeth Caerdydd a'r Fro, ynghyd â gweledigaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd a'r Fro, a'r rhesymeg dros flaenoriaethu atal.

Mae dros 500,000 o bobl yn byw yng Nghaerdydd a'r Fro, gyda nifer y bobl sy'n byw yma yn cynyddu'n gyson bob blwyddyn. Mae anghydraddoldebau sylweddol o ran iechyd yn ein hardal, gyda menywod yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn profi 17 mlynedd yn llai o fywyd iach ar gyfartaledd na'r rhai yn ein hardaloedd lleiaf difreintiedig, a dynion yn byw 9 mlynedd yn llai ar y cyfan.

Gellir osgoi dros un rhan o bump o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr oherwydd cyflyrau y gellir eu hatal neu eu trin, ac ar gyfartaledd mae ymyriadau iechyd y cyhoedd yn dychwelyd £14 i'r pwrs cyhoeddus am bob £1 a werir.

Mae'r cynllun hirdymor yn nodi tri chyfnod gweithredu hyd at 2035, gyda blaenoriaethau ar gyfer y cyfnodau hynny wedi'u datblygu yn y cyfnod cyn i bob un ddechrau, er mwyn sicrhau y gall y cynllun fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau sy'n newid.

Yng nghanam cyntaf y cynllun (2024-2028) cytunwyd mai'r blaenoriaethau ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd a'r Fro oedd imiwneiddio, rhoi'r gorau i ysmegu, a phwysau iach ('y tair fawr'). Dewiswyd y blaenoriaethau hyn gan y byddent yn cael yr effaith fwyaf ar leihau anghydraddoldebau yn ein poblogaeth. Drwy gydol cyfnod y cynllun byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnal system diogelu iechyd gref.

Dros y 12 mis nesaf byddwn yn dechrau adolygu'r blaenoriaethau ar gyfer ail gam y cynllun, o 2028 i 2031.

Ochr yn ochr â'r cynllun hirdymor, rydym yn gosod cynllun iechyd y cyhoedd blynyddol gyda blaenoriaethau, cerrig milltir a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel rhan o gylch cynllunio blynyddol y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer o gamau gweithredu a mesurau yn ein meysydd blaenoriaeth yn ymddangos yn fframwaith perfformiad GIG Cymru a'r disgwyliadau cyflawni allweddol. Felly rydym yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ar gyfer y rhain yn Adroddiad Perfformiad Integredig (IPR) y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â darparu diweddariadau yn erbyn y cerrig milltir yn ein cynllun blynyddol fel rhan o adrodd arferol y Bwrdd Iechyd. Mae mesurau iechyd y cyhoedd hefyd yn Fframwaith Uwchgyfeirio cytunedig y Bwrdd Iechyd gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o Ymyrraeth Dargedig, ac rydym yn adrodd yn rheolaidd ar y rheini.

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'r diweddariad chwe misol rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd i dynnu sylw at berfformiad iechyd y cyhoedd cyfredol a'r camau a gymerwyd. Bydd hyn yn cynnwys copi o'n cyflwyniadau diweddaraf ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad Integredig a'r Fframwaith Uwchgyfeirio, gyda metrigau a chamau gweithredu allweddol wedi'u hamlygu isod.

Sefyllfa bresennol

Mae'r Fframwaith Uwchgyfeirio yn cynnwys y metrigau canlynol sydd o dan gyfrifoldeb Tîm Iechyd y Cyhoedd:


- Canran y plant sydd wedi cael eu brechiadau wedi'u trefnu erbyn 5 oed i fod yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan.
- Cael cyfradd cael y brechlyn HPV ar gyfer plant erbyn 15 oed yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan.

- Canran yr oedolion sy'n ysmygu sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu tuag at y targed cydymffurfiaeth dros y mesur cyfnod o 12 mis.
- Camau cadarnhaol wedi'u cymryd mewn ymateb i'r allanolyn sy'n destun pryder yn yr Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol 2023-24 ar gyfer HbA1c cymedrig wedi'i addasu (30.5%).

Rhoddir gwybodaeth fanwl am ein perfformiad yn yr Atodiad. (I nodi bod fformat Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd yn cael ei newid yn sylweddol ar gyfer adroddiad Gorffennaf 2026, gyda'r fersiwn derfynol heb fod ar gael ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, felly rydym wedi atodi copi o'r adrannau iechyd y cyhoedd ar ffurf yr hen adroddiad.)


Mae meysydd allweddol perfformiad er ymwybyddiaeth yn cynnwys:

- Imiwneiddio
 - Rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2026, roedd **79.9%** o blant wedi cael eu brechu erbyn 4 oed, ac roedd **85%** o blant wedi cael eu brechu erbyn 5 oed.




- Ar gyfer rhaglen dal i fyny RSV (poblogaeth breswyl 75 i 79 oed ar 1 Medi 2024), mae 13,645 allan o 18,177 o unigolion wedi cael eu brechu hyd yn hyn. Mae hwn yn gyfradd derbyn o **75.1%**, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan o 71.8% a'r gyfradd derbyn uchaf ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru.
- Rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2026, roedd **75.6%** o blant a oedd yn cyrraedd 15 oed wedi cael y brechlyn HPV, cynnydd ar y chwarter blaenorol (74.9%) (gweler y graff isod)

HPV by age 15



- Rhoi'r gorau i ysmygu
 - Cynyddodd y ganran gronnus o'r boblogaeth ysmygu amcangyfrifedig a wnaeth ymgais i roi'r gorau i ysmygu drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu o 1.94% yn Ch4 2024/25 i 3.39% yn Ch4 2025/26, er bod hyn yn parhau i fod islaw'r targed o 5% (2025/26) a'r targed newydd o 7.5% o fis Ebrill 2026.




- Pwysau iach
 - Dangosodd data Rhaglen Mesur Plant 2024/25 ostyngiad bach mewn pwysau iach i 75.3%, o 77.7% y flwyddyn flaenorol (ar gyfer BIP Caerdydd a'r Fro). Y BIP oedd â'r lefel uchaf o bwysau iach o holl Fyrddau Iechyd Cymru ar gyfer 2024/25.
- Diabetes
 - Mae'r data diweddaraf (Ch1 26/27) yn dangos gostyngiad yn y bwlch rhwng y cyfraddau derbyn uchaf ac isaf o bob 8 proses gofal ar lefel clwstwr o'i gymharu â'r llinell sylfaen (bwlch o 18.7%, o 27.2% Rhag 25). Roedd y bwlch yn Ch4 25/26 yn 25.8%
 - Mae Uned Diabetes Pediatrig y Bwrdd Iechyd wedi symud i gyfeiriad cadarnhaol o statws 'brys' i statws 'rhybudd' yn yr adroddiad Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol diweddaraf (data 2024-25)

Mae camau gweithredu diweddar a gymerwyd fel rhan o'n gwaith iechyd y cyhoedd yn cynnwys:

- Imiwneddio

- Mae Cynllun Gweithredu Strategol Imiwneiddio Plant a Phobl Ifanc wedi'i gwblhau, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Ansawdd ym mis Gorffennaf 2026. Mae'r strategaeth ar gyfer cyfnod o 3 blynedd ac mae cynllun cyflawni'r flwyddyn gyntaf wedi'i ddatblygu ar y cyd ar draws yr holl bartneriaid sy'n cyflawni rhaglenni brechu byrddau iechyd ac mewn ymgynghoriad â gofal sylfaenol. Mae ffocws cryf ar wella nifer y bobl sy'n cael pob brechlyn erbyn 5 oed a nifer y bobl sy'n cael HPV erbyn 15 oed.
- Rhoi'r gorau i ysmegu
 - Mae hyrwyddo gwasanaethau wedi'i dargedu wedi arwain at gynydd yng ngweithgarwch Helpa Fi i Stopio. Ym mis Mai 2026 cynyddodd nifer yr ysmygwyr a gafodd driniaeth gan y gwasanaeth Helpa Fi i Stopio 50% o'i gymharu â'r un mis y llynedd.
 - Darparodd prosiect Ffordd Hawdd Allen Carr ymyrraeth rhoi'r gorau i ysmegu i 93 o ysmygwyr rhwng 1.4.26 a 3.07.26
 - Mae'r tîm rhoi'r gorau i smygu cymunedol Helpa Fi i Stopio yn bresennol yn Ysbyty Prifysgol Llandochau 2 ddiwrnod yr wythnos i gynnig cefnogaeth rhoi'r gorau i ysmegu i gleifion mewnol, staff ac ymwelwyr.
 - Mae'r swyddog gorfodi ysmegu wedi cysylltu â 1380 o unigolion a gafwyd yn ysmegu ar safleoedd ysbytai, rhwng 17.11.25 a 17.5.26. Cwblhawyd gwerthusiad ym mis Mehefin 2026 a fydd yn llywio cam nesaf y prosiect.
- Pwysau iach
 - Mae **Adroddiad Archwilio Cyfleusterau** Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd wedi'i gwblhau. Mae'n darparu asesiad cynhwysfawr o bob lle sy'n cefnogi gweithgarwch corfforol, o feysydd chwarae, parciau a chaeau glaswellt i neuaddau cymunedol, canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon elitaidd, a mwy. Mae'n sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn ar argaeledd, ansawdd, hygyrchedd a dosbarthiad cyfleusterau, gan nodi bylchau ac anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth.
 - Mae'r canfyddiadau'n cynnwys: Mae Caerdydd yn cynnig ystod eang o gyfleusterau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys lleoliadau mawr, neuaddau cymunedol, campfeydd, parciau a mannau anffurfiol, ond mae mynediad yn anwastad, gydag anghydraddoldebau sylweddol o ran darpariaeth, ansawdd a fforddiadwyedd. Cymunedau canol dinas a chymunedau difreintiedig sy'n wynebu'r heriau mwyaf oherwydd prinder mannau agored, cyfleusterau sy'n cael eu gorddefnyddio, costau uchel, rhwystrau teithio, a mynediad cyfyngedig at gyfleusterau ysgolion.
 - Dyma enghraifft o un map archwilio cyfleusterau:

Figure 4: Map of all Sports Halls and Activity Halls



Atodiadau:

(Rhestrwch unrhyw atodiadau a fydd yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn).

1. Adroddiad Perfformiad Integredig – elfennau iechyd y cyhoedd sleidiau clawr a sleidiau data (gweler y nodyn am fformat yr adroddiad o dan 'Sefyllfa bresennol', uchod)

2. Sleidiau ymyrraeth dargedig sy'n dangos perfformiad rhoi'r gorau i smygu ac imiwneiddio

Aliniad Strategol – Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol:

 Putting People First	X	 Providing Outstanding Quality	X
 Delivering in the Right Places	X	 Acting for the Future	X

Asesiad o'r Effaith

Gwnewch yn siŵr bod pob adran wedi'i chwblhau. (Os dewisir "Oes", llenwch y manylion. Os "Nac oes", ysgrifennwch "Ddim yn berthnasol").

Risg: Nac oes

Os oes, cofiwch gynnwys manylion unrhyw Asesiadau Risg a gynhaliwyd a, lle bo'n briodol, natur unrhyw risgiau a nodwyd. (Os yw hyn wedi cael sylw ym mhrif gorff yr adroddiad, dywedwch hynny).

Diogelwch: Nac oes

Os oes, beth yw'r goblygiadau o ran diogelwch Staff neu Gleifion sy'n gysylltiedig â'r cynnwys/cynigion yn yr adroddiad hwn. A yw'r rhain wedi cael eu hystyried yn llawn ac a oes cynlluniau ar waith i'w lliniaru? (Os yw hyn wedi cael sylw ym mhrif gorff yr adroddiad, dywedwch hynny).

Ariannol: Oes

Mae pwysau ariannol oherwydd y galw cynyddol am ofal iechyd gan y boblogaeth yn gofyn am 'symudiad i'r chwith' i fuddsoddi mewn atal, er mwyn lleihau afiechyd yn ein poblogaeth ehangach.

Y Gweithlu: Nac oes

Os oes, beth yw'r goblygiadau i'r gweithlu sy'n gysylltiedig â'r cynnwys/cynigion yn yr adroddiad hwn? A yw'r rhain wedi cael eu hystyried yn llawn ac a oes cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i'w lliniaru? (Os yw hyn wedi cael sylw ym mhrif gorff yr adroddiad, dywedwch hynny).

Cyfreithiol: Oes

Mae gan BIP Caerdydd a'r Fro ddyletswydd statudol i amddiffyn a gwella iechyd y boblogaeth, yn ogystal â darparu gofal iechyd i bobl sy'n sâl.

Enw da: Nac oes

Os oes, pa risgiau i enw da sy'n gysylltiedig â'r cynnwys/cynigion yn yr adroddiad hwn? A yw'r rhain wedi cael eu hystyried yn llawn ac a oes cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i'w lliniaru? (Os yw hyn wedi cael sylw ym mhrif gorff yr adroddiad, dywedwch hynny)

Economaidd-gymdeithasol: Oes - <https://www.llyw.cymru/canllawiau-dyletswydd-economaidd-gymdeithasol>

Mae'r Cynllun Iechyd y Cyhoedd hirdymor yn nodi fel thema drawsbynciol yr angen i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd yn ein poblogaeth.

Cydraddoldeb ac Iechyd: Nac oes

Fel arfer, cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (EHIA) wrth ddatblygu neu adolygu strategaethau, polisïau, cynlluniau, gweithdrefnau neu wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. A yw'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn golygu bod angen cynnal EHIA? Os felly, cofiwch gynnwys manylion unrhyw EHIA a gynhaliwyd neu'r cynlluniau sydd ar waith. (Os yw hyn wedi cael sylw ym mhrif gorff yr adroddiad, dywedwch hynny)

Datgarboneiddio: Oes

Mae cyfran sylweddol o allyriadau carbon y Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig â gofal eilaidd ac arbenigol i'n cleifion. Drwy gefnogi ein poblogaeth i fod yn iachach, bydd hyn yn lleihau'r galw am ofal iechyd ac yn lleihau allyriadau carbon

Y Gymraeg: Nac oes

Dylid ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg

- *A yw'r adroddiad yn alinio â'r strategaeth Mwy Na Geiriau, gan sicrhau y gall cleifion sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at wasanaethau yn eu hiaith ddewisol?*
- *Sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn ddwyieithog a bod yr adroddiad yn bodloni Safonau'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu, arwyddion a deunyddiau cleifion.*
- *A yw'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r angen am staff sy'n siarad Cymraeg neu adnoddau dwyieithog i ddarparu gofal teg?*

A oes risg o beidio â chyflawni unrhyw un o'r uchod o ganlyniad i bwnc eich papur?

Location / graph or image	English text lifted for translation
Main report - immunisation graph image: Yn gyfredol erbyn 5 oed	• Yn gyfredol erbyn 5 oed • Dyddiad • BIPCAF • Cymru Gyfan
Main report - immunisation graph image: HPV erbyn 15 oed	• HPV erbyn 15 oed • Dyddiad • BIPCAF • Cymru Gyfan
Main report - smoking cessation graph image	• Nifer a chanran gronnus o boblogaeth ysmegu amcangyfrifedig CAF a wnaeth ymgais i roi'r gorau i smygu drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu, Ch3 2024/25-Ch4 2025/26 • Nifer • Canran gronnus • Nifer • % Cronnus (Noder: targed blynyddol yn awr yw 7.5%) • Amser (chwarter yn ôl blwyddyn)
Main report - map image / facility audit example	• Ffigur 4: Map o'r holl Neuaddau Chwaraeon a Neuaddau Gweithgareddau • Allwedd • NEUADDAU CHWARAEON • NEUADDAU GWEITHGAREDDAU
Strategic alignment image buttons	• Rhoi Pobl yn Gyntaf • Darparu Ansawdd Rhagorol • Cyflawni yn y Mannau Cywir • Gweithredu ar gyfer y Dyfodol